Cynllun Datblygu Ysgol : Crynodeb

Hunanwerthusiad: Trosolwg 2024 - 2025

Cryfderau:

Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar weithredu blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol isod:

- Codi safonau dysgwyr yn y Gymraeg gyda phwyslais ar, ysgrifennu, llafar a gwrando.
- Sicrhau hyder staff wrth addysgu mathemateg a rhifedd. Cynnal sesiynau datrys problem wythnosol i herio a sicrhau'r dysgu.
- Gweithredu Cwricwlwm i Gymru a pharhau i ddatblygu staff wrth gyd-gynllunio, addasu a datblygu'r cwricwlwm ar gyfer holl ysgolion y clwstwr. Datblygu gweithdrefnau asesu ar gyfer yr ysgol/ clwstwr.
- Sicrhau bod cyfleoedd asesu a thracio wedi eu cynllunio a bod systemau ar draws yr ysgol yn cael eu datblygu ymhellach i sicrhau cynnydd disgyblion

Mae'r tîm staff wedi gweithio'n gydweithredol i sicrhau bob pob disgybl yn cael cyfleoedd cyfartal i lwyddo.

Cryfderau Allweddol

Mae cynnydd clir wedi'i weld yn sgil gweithredu strategaethau penodol i godi safonau dysgwyr yn y Gymraeg, gyda phwyslais ar ysgrifennu, llafar a gwrando. Mae hyn wedi ei weld hefyd yn ystod Ymweliad Interim gan Estyn ym Mawrth 2025. Mae sesiynau Tafod Trafod wedi'i treiddio ar draws yr ysgol, gan feithrin defnydd cywir o'r iaith yn yr adran isaf a chyflwyno patrymau iaith heriol yn yr adran uchaf. Mae hyfforddiant Ein Llais ni a defnydd systematig o dechnegau llafar wedi cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd hwn. Mae adnoddau darllen wedi bod yn allweddol wrth godi safonau darllen, tra bod sesiynau stori wedi cynnig cyfleodd i ehangu geirfa. Mae pob dosbarth wedi dangos cynnydd clir yng nghanlyniadau profion darllen cenedlaethol.

Mae cynnydd cadarnhaol wedi'i weld o ran hyder staff yn addysgu mathemateg a rhifedd, yn sgil gweithredu strategaethau penodol ar draws yr ysgol. Mae sesiynau datrys problemau wedi sicrhau her a dysgu pwrpasol, gyda staff yn cydweithio drwy deithiau dysgu i sicrhau gwersi o safon uchel. Mae dealltwriaeth staff o addysgu datrys problem wedi cryfhau gan gyfrannu'n uniongyrchol at godi safonau a sicrhau cynnydd dysgwyr. Mae pob dosbarth wedi dangos cynnydd clir yng nghanlyniadau profion rhifedd cenedlaethol

Mae cynnydd sylweddol wedi'i weld wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru ar draws ysgolion y clwstwr, gyda staff yn cyd-gynllunio, addasu a datblygu'r cwricwlwm yn barhaus. Mae cydweithio agos rhwng penaethiaid, dirprwyon ac athrawon wedi arwain at fireinio cynlluniau cychwynnol ac at rannu adnoddau effeithiol. Mae gweithdrefnau asesu wedi datblygu ar lefel ysgol gan gynnwys elfen llafar yng nghwricwlwm iaith y clwstwr. Mae'r siarter Iaith wedi hyrwyddo defnydd y Gymraeg ac mae'r ysgol wedi ennill y wobr Aur Siarter Iaith eleni. Mae systemau ADY hefyd wedi parhau i gael eu mireinio'n effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae pob disgybl bellach yn elwa o broffil taith Dysgu Unigol gyda chyfarfodydd tymhorol â rhieni ac adroddiadau byrion yn sicrhau cyfathrebu effeithiol am gynnydd. Mae canlyniadau holiaduron yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod ganddynt berthynas positif gyda'r staff ac mae llawer yn teimlo fel eu bod yn perthyn i gymuned yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn rhan o gynllunio'r cwricwlwm.

Meysydd i'w datblygu:

Llythrennedd

- Sicrhau bod Cylch Darllen gyda phwrpas yn cael ei gynnal ym mhob dosbarth
- Sesiynau darllen dyddiol i bob disgybl
- Cynnal sesiynau cymedroli darnau o waith ysgrifenedig disgyblion yn dymhorol i fonitro a sicrhau cynnydd

Rhifedd

- Ail gyflwyno'r 'Heriau Rhifedd' ar draws yr ysgol

- Sicrhau bod gweithgareddau rhifedd yn berthnasol i fywyd go iawn ac yn ystyrlon

Datblygiad Proffesiynol a Rhannu arfer

- Rhannu arfer dda rhwng staff yn fewnol ac allanol
- Gwahodd athrawon o ysgolion eraill i rannu arferion effeithiol
- Tasgau darllen a chydweithio rhwng aelodau staff

Cynhwysiant a Chydraddoldeb

- Dechrau ar daith gwrth hiliaeth fel ysgol
  Monitro a chynnydd
- Monitro a thracio cynnydd disgyblion yn rheolaidd
- Targedu unigolion penodol o grwpiau o ddisgyblion i sicrhau cynnydd personol

Llais y Disgybl

- Heriau ar gyfer Adran Uchaf i ddatblygu llais y disgybl
- Datblygu annibyniaeth disgyblion drwy gynnig cyfleoedd iddynt ddewis sut i ymateb a chofnodi eu gwaith

Amgylchedd Dysgu

- Datblygu'r defnydd o'r ardal allanol i gyfoethogi profiadau dysgu ar draws yr ysgol

GWERTHUSO CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2024/2025	
Blaenoriaeth	**Gwerthusiad o'r cynnydd**
Codi safonau dysgwyr yn y Gymraeg gyda phwyslais ar ddarllen, ysgrifennu, llafar a gwrando.	Mae gweithredu strategaethau targedig wedi arwain at welliant mesuradwy yn safonau darllen, ysgrifennu, llafar a gwrando. Mae sesiynau Tafod Trafod wedi treiddio ar draws yr ysgol, gan feithrin iaith gywir yn yr adran isaf a chyflwyno patrymau iaith heriol yn yr adran uchaf. Mae hyfforddiant 'Ein Llais Ni' a defnydd systematig o dechnegau llafar wedi cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd hwn, ynghyd â buddsoddi mewn adnoddau darllen a sesiynau stori i ehangu geirfa. Mae pob dosbarth wedi dangos cynnydd clir yng nghanlyniadau profion darllen cenedlaethol
Sicrhau hyder staff wrth addysgu mathemateg a rhifedd. Cynnal sesiynau datrys problem wythnosol i herio a sicrhau'r dysgu.	Mae gweithredu strategaethau ysgol-gyfan wedi arwain at welliant sylweddol yn hyder staff wrth addysgu mathemateg a rhifedd. Mae sesiynau datrys problemau wythnosol wedi sicrhau her a dysgu pwrpasol, tra bod cydweithio drwy deithiau dysgu wedi cryfhau safon gwersi. Mae dealltwriaeth staff o addysgu datrys problemau wedi dyfnhau, gan gyfrannu'n uniongyrchol at gynnydd disgyblion a chanlyniadau profion rhifedd cenedlaethol
Gweithredu Cwricwlwm i Gymru a pharhau i ddatblygu staff wrth gyd-gynllunio, addasu a datblygu'r cwricwlwm ar gyfer holl ysgolion y clwstwr. Datblygu gweithdrefnau asesu ar gyfer yr ysgol/ clwstwr	Mae cydweithio cryf rhwng ysgolion y clwstwr wedi sicrhau gweithredu effeithiol Cwricwlwm i Gymru. Mae staff wedi cyd-gynllunio ac addasu'r cwricwlwm yn barhaus, gan rannu adnoddau a mireinio cynlluniau cychwynnol. Mae datblygiadau asesu, gan gynnwys elfen llafar, wedi cryfhau profiadau dysgu. Mae'r Siarter Iaith wedi hybu defnydd y Gymraeg, gan arwain at ennill y wobr Aur. Yn ogystal, mae systemau ADY wedi parhau i ddatblygu'n gadarn
Sicrhau bod cyfleoedd asesu a thracio wedi eu cynllunio a bod systemau ar draws yr ysgol yn cael eu datblygu ymhellach i sicrhau cynnydd disgyblion	Mae gweithredu Proffil Taith Dysgu unigol wedi cryfhau cyfathrebu â rhieni ac wedi sicrhau dull systematig o fonitro cynnydd. Mae adborth holiaduron yn dangos bod disgyblion yn teimlo perthynas gadarnhaol â staff ac ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion hefyd yn teimlo eu bod yn cael llais wrth gynllunio'r cwricwlwm.

BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2025/2026		
Blaenoriaeth	**Camau Gweithredu**	**Cymorth**
Codi safonau ieithyddol dysgwyr gan barhau i weithredu cynlluniau llafar ac ysgrifennu. Datblygu medrau darllen y dysgwyr ymhellach i godi safonau iaith dysgwyr.	• Monitro gweithgareddau llafar ar draws yr ysgol. Gweithredu technegau a strategaethau Llafar Llwyddiannus Pen-y-Groes i gynnal sesiynau llafar i bwrpas yn draws-gwricwlaidd. • Cynnal hyfforddiant mewnol i staff ar sut i gynnal cylch darllen. Cynnwys sesiwn llawysgrifen o fewn y cylch darllen. • Sicrhau trefniant clir a phwrpasol i Gylchoedd Darllen ym mhob dosbarth trwy gweithgareddau monitro. • Addasu polisi llawysgrifen yr ysgol • Tracio cynnydd gwaith ysgrifenedig disgyblion gan ddefnyddio llyfrau gwaith gwych. • Cynnal sesiwn stori i fwynhau ac i ddatblygu medrau gwrando yn reolaidd. • Pob dosbarth i ddatblygu eu corneli darllen • Cynnal cyfarfodydd cynnydd gyda staff yn dymhorol i graffu ar ddata - edrych ar gynnydd llythrennedd • Hyfforddiant i staff - Hyfforddiant Prawf Darllen newydd • Hyfforddiant Pie Corbett • Cynnal Hyfforddiant i staff ar ddatblygu Amgylchedd Llythrennedd o fewn eu dosbarth. Staff i gynnal awdit o'u ardaloedd dosbarth	Mewnol - Hyfforddiant Darllen Dysgu Effeithiol Mewnol - Hyfforddiant Amgylchedd Llythrennedd Cyfoethog Prawf darllen Newydd
Cerrig Milltir Rhagfyr • Hyfforddiant cychwynnol Dysgu Darllen Effeithiol wedi ei gwblhau • Corneli darllen wedi trefnu a gosod ym mhob ystafell ddosbarth • Hyfforddiant Amgylchedd Llythrennedd Cyfoethog i staff wedi ei gyflawni • Cyfarfodydd cynnydd wedi ei gwblhau ar gyfer pob dosbarth a staff yn gweithredu ar rhain • Monitro gweithgaeddau llafar ar draws yr ysgol • Gweithredu technegau Llafar Llwyddiannus Pen-y-Groes	**Cerrig Milltir Mawrth** • Adolygu ac addasu polisi llawysgrifen yr ysgol • Tracio cynnydd gwaith ysgrifenedig disgyblion gan ddefnyddio llyfrau gwaith gwych • Cynnal cyfarfodydd cynnydd gyda staff i graffu ar ddata llythrennedd • Hyfforddiant i staff ar y prawf darllen newydd • Cynnal hyfforddiant Pie Corbett • Parhau i gryfhau cylchoedd darllen a monitro eu heffeithiolrwydd	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Adolygu cynnydd disgyblion (llythrennedd a llafar) a chasglu tystiolaeth • Cyfarfod cynnydd i adolygu data ac yn dangos bod ansawdd darllen, llafar ac ysgrifennu'r disgyblion wedi gwella • Cryfhau corneli darllen a sicrhau eu bod yn weithredol ac yn ddeiniadol • Bydd bron pob un o'r staff yn hyderus yn dysgu darllen ac yn cynnal cylchoedd darllen

mewn sesiynau traws-gwricwlaidd		llwyddiannus sydd yn codi safonau • Amgylchedd llythrennedd cyfoethog ym mhob Dosbarth • Bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd ym medrau llafar a'r defnydd o chystrawenau cywir • Bydd profion darllen a gwaith monitro yn dangos medrau darllen llawer o ddisgyblion yn parhau i wella a safonau darllen llawer o ddisgyblion yn codi. • Bydd medrau ysgrifennu estynedig y mwyafrif o ddisgyblion yn gwella a safonau ysgrifennu yn codi.
Cyflwyno addysgu mathemateg o ansawdd uchel drwy ymgorffori dulliau addysgeg effeithiol sy'n meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau disgyblion. Datblygu datryswyr problemau hyderus a galluog drwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth fathemategol a'i chymhwyso mewn cyd-destunau ystyrlon, go iawn.	• Taflen hunan asesu disgyblion yn dymhorol yn yr adran uchaf er mwyn dangos cynnydd. • Cynnal arsylwadau gwersi gan ddefnyddio meini prawf glir • Sicrhau hyder athrawon i gynllunio ac addysgu gwersi mathemateg a rhifedd safonol drwy hunanasesiadau a holiaduron • Monitro medrau disgyblion trwy dderbyn adborth gan ddisgyblion am eu hyder wrth ddatrys problemau, wrth gyflawni tasgau mathemategol cyn ar ôl y prosiect. • Yn dilyn Hyfforddiant 9/1/26 - Athrawon i gynllunio gwersi a gwaith dosbarth sydd yn cynnwys tasgau datrys problemau go iawn. Monitro llyfrau i asesu ehangder a dyfnder cynnwys. • Sicrhau gwaith prosiect neu weithgareddau trawsgwricwlaidd ar y cyd gydag ysgolion eraill lle defnyddir mathemateg mewn cyd-destunau bywyd go-iawn • Rhannu arfer da gydag ysgolion eraill y CLIPS(Rhwydwaith Rhifedd) • Hyfforddiant Rhifedd ar draws i aelod o staff gan CSC • Peilota rhaglen Magma Maths i godi safonau datrys problemau	CSC – Hyfforddiant Rhifedd ar draws y Cwricwlwm HMS staff gyfan 1 aelod o staff cwrs 2 ddiwrnod 1 aelod o staff cwrs hwyrnos Cefnogaeth – Cyngor Sir Caerdydd – Magma Maths Robin Williams – Adnoddau Rhifedd ar draws Gwaith cyd-weithio Ysgolion eraill – Ysgol y Wern, Ffed y Ddraig, Ysgol Treganna, Ysgol Mynydd Bychan

	disgyblion. Hyfforddiant i aelod o staff a chyfrif Magma Maths i bawb • Archebu adnoddau mathemategol newydd	
Cerrig Milltir Rhagfyr • Cyfarfodydd CLIPS wedi eu cynnal ac y gwaith cyd-weithio wedi cychwyn • Hyfforddiant hwyrnos yn Ysgol y Wern i 1 aelod o staff • Holiadur staff wedi ei chynnal ar hyfedredd rhifedd • Robin Williams wedi rannu gwybodaeth ar weithgareddau rhifedd ar draws • Hyfforddiant i 1 aelod o staff ar Rhifedd ar draws gan CSC • Hyfforddiant diwrnod wedi ei drefnu gan Ffed y Ddraig 9.1.25 ar rhifedd ar draws • Ysgol yn treialu Magma Maths – 1 aelod o staff yn mynychu hyfforddiant ac yn treialu'r rhaglen gyda'r disgyblion • Cynnal taith ddysgu er mwyn asesu hyder athrawon wrth gyflwyno gwersi rhifedd ar draws • Sicrhau hyder athrawon i gynllunio ac addysgu gwersi mathemateg drwy hunanasesiadau a holiaduron. • Archebu adnoddau mathemategol newydd. • Cynnal taflen hunanasesu disgyblion yn yr adran uchaf (dymhorol). • Monitro medrau disgyblion trwy adborth am hyder wrth ddatrys problemau (cyn y prosiect).	**Cerrig Milltir Mawrth** • Yn dilyn hyfforddiant 9/1/26: Athrawon i gynllunio gwersi gyda thasgau datrys problemau go iawn. • Monitro llyfrau i asesu ehangder a dyfnder cynnwys mathemategol. • Sicrhau gwaith prosiect neu weithgareddau trawsgwricwlaidd ar y cyd gydag ysgolion eraill. • Rhannu arfer da gydag ysgolion CLIPS (Rhwydwaith Rhifedd). • Cynnal ail hunanasesu disgyblion (dymhorol) i ddangos cynnydd.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Bydd addysgu o ansawdd uchel sy'n cynnwys dealltwriaeth o fethodolegau addysgu effeithiol ar gyfer mathemateg • Bydd bron bob un disgybl yn derbyn cyfleoedd i gaffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau mathemategol • Bydd bron bob un disgybl yn derbyn cyfleoedd i ddyfnhau dealltwriaeth fathemategol a datblygu sicrwydd wrth gymhwyso dulliau • Bydd cyfleoedd i bron bob disgybl i gymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau mathemategol i ddatrys problemau mewn cyd-destunau perthnasol • Bydd medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn gwella a safonau mathemateg yn codi
Addasu cynlluniau meysydd dysgu a phrofiad ein cwricwlwm er mwyn sicrhau datblygiad clir o ran medrau a phendant a chyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth. Sicrhau bod cyfleoedd asesu a thracio wedi eu cynllunio a bod systemau ar draws yr ysgol yn cael	• Sicrhau bod cyfleoedd i ddathlu amrywiaeth y byd wedi cynnwys yn ein cwricwlwm- Gwaith EMTAS + DARPL • Datblygu'r defnydd o'r ardal allanol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion ac i ddatblygu annibynniaeth • BLAENORAIETH 1 a 3	Mewnol– Hyfforddiant Amgylchedd Llythrennedd Cygfoethog Grant Cydweithio Celfyddydau Mynegiannol

eu datblygu ymhellach i sicrhau cynnydd disgyblion	Cynnal Hyfforddiant i staff ar ddatblygu Amgylchedd Llythrennedd o fewn eu dosbarth. Staff i gynnal awdit o'u ardaloedd dosbarth Ymgeisio i dderbyn grant i gyd-weithio ar brosiect celfyddydau mynegiannol - Archwilio Cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol (CSC) • Datblygu cynllun medrau celfyddydau mynegiannol er mwyn datblygu sgiliau disgyblion o fewn pob agwedd o'r maes mewn cydweithrediad gyda prosiect Archwilio Cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol gyda Amanda Jones – • Datblygu map medrau Iechyd a Lles (ymarfer corff) er mwyn datblygu sgiliau disgyblion o fewn y maes • Datblygu cynllun medrau cyfrifiadureg er mwyn datblygu sgiliau disgyblion o fewn y maes dysgu a phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg - Cydweithio gyda YFfed y Ddraig a Sarah Summers o'r consortiwm i ddatblygu'r cwricwlwm FfCD	Gwaith Grant – Archwilio Cynnyddy n y Celfyddydau Mynegiannol (CSC) Gwaith cydweithio YPYG a Ffed y Ddraig a CSC ar ddatblygu cwricwlwm FfCD
Cerrig Milltir Rhagfyr • 1 aelod o staff yn cychwyn y gwaith DARPL fel rhan o'r gwaith CPCP • Hyfforddiant amgylchedd Llythrennedd Gyfoethog wedi ei chyflawni 24/11/25 _ Awdit dosbarth wedi ei chyflawni • 1 aelod o staff wedi ymgeisio ac wedi llwyddo i gael grant ar gyfer gwaith prosiect – Archwilio Cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol. 1 sesiwn wedi ei chyflawni 4/11/25. Ail sesiwn wedi ei drefnu ar gyfer 16/11/25 • 1 aelod o staff wedi cyfarfod gyda staff o Ffed y Ddraig a CSC I drafod gwaith cychwynnol ar y FfCD • Sicrhau bod cyfleoedd i ddathlu amrywiaeth y byd wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm (gwaith EMTAS + DARPL).	**Cerrig Milltir Mawrth** • Datblygu cynllun medrau celfyddydau mynegiannol mewn cydweithrediad â phrosiect Archwilio Cynnydd • Parhau i ddatblygu'r ardal allanol a monitro ei defnydd. • Datblygu map medrau Iechyd a Lles (ymarfer corff). • Cynnal cyfarfod i adolygu cynnydd ar flaenoriaethau a grant celfyddydau. • Datblygu cynllun medrau cymhwysedd digdiol mewn cydweithrediad â gwaith cydweithio • Datblygu cynllun medrau iechyd a lles	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Cynlluniau sydd yn dangos cynnydd clir o fewn medrau Meysydd Dysgu a Phrofiad Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles(Ymarfer Corff) a Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Cyfrifiadureg) • Staff yn hyderus o fewn eu meysydd dysgu ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o safonau cyrhaeddiad y disgyblion o fewn eu meysydd • Datblygu awyrgylch dosbarthiadau er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu yn annibynnol • Adolygu effaith ar amrywiaeth y

• Dechrau datblygu'r defnydd o'r ardal allanol i gyfoethogi profiadau dysgu ac annibynniaeth.		cwricwlwm a chasglu tystiolaeth.
Sicrhau tracio cyson o presenoldeb a phrydlondeb disgyblion o fewn grwpiau penodol	• Parhau i ddatblygu Proffil 'Taith Dysgu' unigol i bob plentyn. • Adroddiad byr + cyfarfod a rhieni pob tymor i drafod cynnydd. • Defnyddio cwestiynau 'Spiky' a 'Clipsi' i sicrhau cyfleoedd asesu dealltwriaeth yn yr adran uchaf. • Hunan asesu wythnosol ar SeeSaw. Tracio ymatebion disgyblion a defnyddio i gynllunio amgylcheddau dosbarth.. • Defnyddio cwestiynau tacsonomeg Blwm er mwyn uwch lefelu cwestiynu athrawon. Defnyddio wrth farcio, cyflwyno ac asesu gwaith. • Cynnal cyfarfodydd cynnydd gyda staff yn dymhorol i graffu ar ddata a craffu ar lyfrau • Sicrhau presenoldeb a phrydlondeb cyson dda gan ddisgyblion trwy cyd-gynhyrchu deunyddiau i godi ymwybyddiaeth rhieni a disgyblion am bwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb • Dadansoddi Data ar y Cyd - Casglu a dadansoddi data ar gyrhaeddiad, presenoldeb a llesiant grwpiau dan anfantais ar draws ysgolion. • Heriau Adran Uchaf - Datblygu elfen a llais y plant. Cyfleoedd i ddisgyblion dewis ffordd i ymateb a chofnodi gwaith	Presenoldeb – Gwaith Cyd-weithio CLIPS
Cerrig Milltir Rhagfyr • CLIP wedi blaenoriaethu gweithgareddau presenoldeb a phrydlondeb • Ysgolion y CLIP i greu clip fideo ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol sydd yn hybu pwysigrwydd presenoldeb erbyn diwedd yr haf. • Athro o Ysgol Mynydd Bychan yn cydlynu I greu fideo o fewn y CLIP • Cyfarfodydd cynnydd wedi eu chynnal gan staff a	**Cerrig Milltir Mawrth** • Defnyddio cwestiynau 'Spiky' a 'Clipsi' yn yr adran uchaf i asesu dealltwriaeth. • Hunanasesu wythnosol ar SeeSaw; dechrau tracio ymatebion disgyblion. • Sicrhau presenoldeb a phrydlondeb cyson trwy ddechrau cyd-gynhyrchu deunyddiau ymwybyddiaeth gyda rhieni a disgyblion. • Defnyddio cwestiynau tacsonomeg Blwm yn fwy systematig wrth farcio, cyflwyno ac asesu gwaith. • Cynnal cyfarfod cynnydd gyda staff i graffu ar ddata a llyfrau.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Adolygu Proffil 'Taith Dysgu' ar gyfer pob plentyn a chasglu tystiolaeth terfynol. • Cynnal cyfarfod terfynol â rhieni i adolygu cynnydd. • Dadansoddi data terfynol ar gyrhaeddiad, presenoldeb a llesiant; rhannu canfyddiadau. • Cryfhau defnydd o gwestiynau Blwm a Spiky/Clipsi fel arfer safonol.

gweithgareddau targed wedi eu cofnodi • 1 aelod o staff wedi cychwyn ar gwaelodlin yr ysgol isaf	• Dadansoddi data ar y cyd: casglu data ar gyrhaeddiad, presenoldeb a llesiant grwpiau dan anfantais. • Cynnal ail gyfarfod â rhieni (tymhorol) i drafod cynnydd. • Parhau i ddatblygu llais disgyblion trwy Heriau Adran Uchaf (cyfleoedd i ddewis dull ymateb).	• Adolygu effaith strategaethau presenoldeb a gosod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf • Bydd systemau asesu cadarn ar draws yr ysgol • Bydd gweithdrefnau cadarn mewn lle er mwyn sicrhau datblygiad medrau disgyblion ac i sicrhau cynnydd • Bydd canran presenoldeb grwpiau o ddisgyblion yn gwella